CYNGOR CYMUNED BETWS

2005 03 Mawrth Cofnodion

CYNGOR CYMUNED BETWS

Fe gynnal cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Betws ar Ddydd Mercher y 9fed o Fawrth 2005 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Anne Sizmur (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, Cynghorwyr, Loreen Lewis, Peter Cowell, Graham Vaughan, Keith Rees, Menna Roberts, Annette Price, Carwyn James, June Gunter.

YMDDIHEURIAD: Cynghorwr E Audrey Jones, Delyth Richards a Cynghorwr Sir John D Evans.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1. I DDARLLEN AG YSTYRIED Y COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHELIR A'R Y 9fed O CHWEFROR 2005.
Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi dweud yngly^n â phwynt 8.4 - fod yr arian a wariodd ef i wneud a llwybrau troed a phrosiectau eraill.
PENDERFYNWYD: Bod y Clerc yn cywiro'r cofnodion.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Praesept Cyngor Cymuned Betws.
Dywedodd Cynghorwr Graham Vaughan yn ôl ei gyfrif bod £1.58 pob pen wedi cael i wario ar roddion wrth praesept Cyngor Cymuned Betws. Roedd Cynghorwr Carwyn James wedi cytuno a hyn.

Roedd Cynghorwr Graham Vaughan am gael eglurhad yngly^n â beth oedd y gost o £877.64 yngly^n â etholiad ar y praecept yn perthyn i? Eglurodd Cynghorwr Peter Cowell; yn y gorffennol roedd etholiadau eraill, ond hyn oedd y tro cynaf roedd etholiad aros yn unig, felly mae eisiau i'r Cyngor Cymuned dalu £877.64 i Gyngor Sir Caerfyrddin.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.2 Heddlu Dyfed Powys - Gorsaf Heddlu Rhydaman.
Darllenodd y Clerc ateb wrth Heddlu Dyfed Powys yngly^n â dalfa hwylustod yn Gorsaf yr Heddlu yn Rhydaman. Cynigwyd ac eiliwyd bod llythyr yn cael i ysgrifennu i Awdurdod yr Heddlu.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn cysylltu gyda Cynghorwr Graham Vaughan i ddrafftio llythyr i Awdurdod yr Heddlu.

2.3 Warden y Cw^n.
Roedd y Clerc wedi darllen e-bost roedd hi wedi derbyn wrth warden y cw^n a hefyd dywedodd wrth y Cyngor bod Cynghorwr Sir John D Evans, wedi gofyn am bins arbennig i ddodi mes y cw^n mewn ar Heol Betws a Heol Y Cyrnol.
NODWYD: Y pwynt uchod

2.4 Parc Betws.
Roedd Cynghorwr Annette Price wedi adrodd bod yr arwydd troseddau oedd ar y ffordd mewn i'r parc wedi chwythi i mewn i'r afon a hefyd bod yr arwydd cyflymder oedd ar bwys

garej Touts hefyd yn yr afon.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu i Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.5 Safle Gwe Cymunedol.
Roedd Cynghorwr Menna Roberts wedi esbonio roedd cyfarfod wedi cael i drefni gyda Emma Jewell, Cynghorwr Peter Cowell a'i hunan, ond roedd eisiau rhagor o wybodaeth cyntaf. Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi dweud bod Jenny Hall a Paul yn mynd i ail ysgrifennu hanes Betws.

Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi dweud bod posibilrwydd cryf fod Cyngor Cymuned Betws yn gallu cael cyfrifiadur a rhwymyn llydan. Roedd y cyfrifiadur wedi cael i gynnig i'r Clerc ac i Gynghorwr Menna Roberts, roedd y ddau wedi dweud bod ganddyn nhw gyfrifiadur eu hunan. Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell nid oedd ots ganddo, i ddodi'r cyfrifiadur yn ei dy^. Roedd y Cynghorwyr wedi cytuno a hyn.
NODWYD: Y pwynt uchod

2.6 Clwb Criced Betws.
Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi cadarnhau ei bod hi wedi siarad gyda Rhidian Murray, ac ei fod wedi ysgrifennu llythyr i Gyngor Cymuned Betws yn gofyn am gymorth ariannol, mae hwn wedi cael i basio i'r Pwyllgor Cyllid am ystyriaeth. Mae ef hefyd wedi dweud wrth Cynghorwr Anne Sizmur bod y Clwb Criced yn cynal dwy swyddogaeth y flwyddyn i codi arian am gyfarpar. PENDERFYNWYD: bod y llythyr yn cael i drafod gyda'r Pwyllgor Cyllid.

2.7 Cynghrair Dwr Cymru – Cynllun i wella Prif Dwr yn Dref Rhydaman.
Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi cadarnhau ei bod hi wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod hyn, yn absenoldeb Cynghorwr Arnallt James.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.8 Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig – Diwrnod Codi Ymwybyddiaeth.
Roedd Cynghorwyr Anne Sizmur wedi cadarnhau bod Cynghorwr Loreen Lewis a hi wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod hyn, ac roedd y digwyddiad hyn yn rhagorol. Roedd Cynghorwr Annette Price hefyd wedi bod yn bresennol.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.9 Mr Ian Jones, Ffarm Glynyradar.
Darllenodd Y Clerc ateb wrth Cyngor Sir Caerfyrddin yngly^n ar fater uchod.
NODWYD: Y pwynt uchod.
2.10 Grw^p Cynghorau Lleol Aman.
Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi dweud wrth y Cyngor bod Rheolwyr yr Eisteddfod Genedlaethol wedi bod i ymweld ar safle yn Tycroes ac roedd diddordeb gyda nhw, mae nhw wedi dynesu Cyngor Sir Caerfyrddin sydd yn tueddu ffafriol.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.11 Llythyr ECO2.
Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi adrodd ei bod hi wedi mynd ar lythyr i swyddfa Un Llais i Gymru a bod nhw wedi dweud bod Cymuned Betws yn cael beth sydd yn cyfreithlon i nhw wrth ECO2 gyda deddf.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.12 Materion Cynllunio.
Darllenodd y Clerc ateb wrth Cyngor Sir Caerfyrddin. Cytunwyd bod y Clerc yn ysgrifennu i weld os gall y cyfieithiad Cymraeg o "Woodlands Lane" cael i enwi Lon Tir Y Coed?
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu i Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.13 Prosiect y Parc.
Roedd Cynghorwr Annette Price wedi rhoi adroddiad yngly^n â phrosiect y parc. Eglurodd

efallai fod y Cyngor yn cymwys I gael grant oherwydd mae'r prosiect yn cysylltu â iechyd, pobl anabl, plant ac addysg. Bydd hwn yn ardd gyffyrddol a bydd ardal coffa. Roedd Cynghorwr Menna Roberts wedi dweud fod gan Pentref Caerbryn ardal coffa hyfryd.

Gofynnodd Cynghorwr Anne Sizmur os oedd y Cyngor am fynd ymlaen a darganfod os oes posibilrwydd o gael cronfa i'r parc. Roedd y Cynghorwyr i gyd wedi penderfynwyd cario ymlaen.

Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi gofyn os dele trefn cadwraeth gael i ddodi ar y bont yn y parc, oherwydd roedd hwn wedi cael i adeiladu ar bwrpas gan Ty^ Dyffryn. Roedd y Cynghorwyr wedi cytuno.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu i Adran y Parc.

Roedd Cynghorwr Keith Rees wedi dweud wrth y Cyngor ei fod wedi cael adroddiadau wrth breswylyddion o Heol Pentwyn, bod y torwyr clawdd o Gyngor Sir Caerfyrddin yn dodi'r torrwr clawdd ar y glân yr afon.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu i Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.14 Heol Pentwyn.
Roedd Cynghorwr June Gunter wedi adrodd nid yw'r camerâu wedi gwneud gwahaniaeth, oherwydd mae'r traffig yn dal i fynd yn gyflym ar Heol Pentwyn.
PENDERFYNWYD: I godi'r mater gyda'r Heddlu yn y cyfarfod nesaf.

2.15 Clwb Dros 50deg Betws.
Dywedodd Cynghorwr Graham Vaughan ei fod yn ystyriol bod ef wedi dweud yn y cyfarfod diwethaf ei fod yn mynd i rhoi adroddiad ysgrifenedig i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod hyn. Dywedodd nid oedd ef yn gallu cyfieithi'r adroddiad, felly rhoddwyd adroddiad llafar yn Saesneg, nid oedd y Cynghorwyr wedi gwrthwynebu.
Ø Enw swyddogol y Clwb yw Clwb Dros 50deg Betws.
Ø Roedd y Clwb wedi cael I sefydlu ar y 9fed o Ragfyr 2004.
Ø Dywedodd fod llawer iawn o waith called wedi mynd i mewn i'r prosiect, gan Cynghorwyr Keith Rees, Audrey Jones ac ei hunan.
Ø Mae rheolau a chyfansoddiad wedi cael i gytuno gan y Clwb ac mae ganddyn nhw gyfrif banc.
Ø Clwb Rygbi Betws yw eu pencadlys.
Ø Bwriad y prosiect yw i dynnu pobl at ei gilydd.
Ø Mae gan y Clwb siaradwyr gwahoddedigion.
Ø Mae'r Clwb wedi bod yn rhedeg am 13 wythnos ac at ei gilydd mae na 27 aelodau yn bresennol pob wythnos.
Ø Roedd yr AGM wedi cael i ddal ar y 3ydd o Fawrth 2005.
Ø Y dal aelodaeth flynyddol yw £1.

Cynigiwyd ac eiliwyd fod Clwb dro 50deg Betws yn derbyn rhodd blynyddol o £300 wrth Cyngor Cymuned Betws. Rhoddwyd diolch i'r Cyngor wrth Cynghorwr Graham Vaughan ar ran y Clwb. Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi cadarnhau bod y prosiect yn rhedeg o dan ymbarél Cyngor Cymuned Betws.
PENDERFYNWYD: Bod Clwb Dros 50deg Betws yn derbyn rhodd blynyddol o £300.

2.16 Llwybrau Troed.
Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi adrodd bod llwybr troed 68/11 heb gael i concrid eto, bydd hyn yn cael i wneud mor gynted â phosib. Adroddwyd Cynghorwr Peter Cowell ei fod wedi siarad gyda Gary Carson yngly^n â adferiad mwynglawdd y llwybrau troed ac mae hefyd wedi siarad gyda Hugh Towns, a phân maen nhw wedi cael i edfryd gallwn nhw gael i wneud mewn i lwybrau "Bridal" a llwybrau troed.
NODWYD: Y pwynt uchod.

2.17 Betws Yn Eu Blodau.
Roedd Cynghorwr Anne Sizmur wedi cadarnhau ei bod hi'n mynd i ddodi hysbyseb yn y Guardian wythnos nesaf, ond nid oes beirniadai ganddi. Dywedodd Cynghorwr Graham Vaughan ei fod yn mynd i rhoi wybod i Gynghorwr Anne Sizmur am feirniadu. Cadarnhaodd Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi bod yn siarad gyda Prif Athro Ysgol Y Betws, a oedd wedi dweud gall y plant gymryd rhan yn y gystadleuaeth yn y categori arddangosfa bocs/basged yn hongian.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.18 Adwy o Reolaeth Cynllunio – Tipio heb awdurdod.
Roedd Cynghorwr Arnallt James wedi hysbysu ei fod ef wedi cael cyfatebiaeth wrth Brian Canning o Cyngor Sir Caerfyrddin ac nid oes adwy o reolaeth cynllunio ar yr adeg hon. Roedd y cais cynllunio wedi cael i gyhoeddi ym mis Gorffennaf, ond nid oedd cyfarfod gyda Cyngor Cymuned Betws. Nid oedd y cais wedi cael i dderbyn.
Mae'n dweud ar y ffurf gais nid yw hwn yn effeithio dw^r, planhigion, ac anifeiliaid. Cytunodd y Cynghorwyr bod hwn yn effeithio'r dw^r, planhigion, ac anifeiliaid. Cynigwyd Cynghorwr Peter Cowell fod llythyr yn cael i ysgrifennu i'r adran cynllunio oherwydd mae'n adwy o reolau cynllunio. Roedd Cynghorwr Annette Price wedi gofyn os oedd y Swyddog Amgylchedd Iechyd wedi bod yn ymweld ar safle? Esboniodd Cynghorwr Peter Cowell nid yw'r Swyddog Amgylchedd Iechyd wedi bod i ymweld ar safle; dim ond y Swyddog Gorfodaeth sydd wedi bod i ymweld ar safle.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu i'r adran cynllunio – yn gofyn pan nid yw'r Swyddog Amgylchedd Iechyd wedi bod i ymweld ar safle a hefyd fod yna adwy o'r rheolaeth cynllunio.

2.19 Prydau o fwyd ar Olwynion.
Roedd Cynghorwr Arnallt James wedi dweud bod y ddau wirfoddolwr wedi gorffen. Esboniodd ef maen nhw'n brin ar ddydd Mercher a dydd Iau. Gofynnodd os oedd y Cynghorwyr yn gwybod am unrhyw berson oedd a diddordeb? Gofynnod Cynghorwr June Gunter beth oedd y slot amser? Roedd Cynghorwr Arnallt James wedi ateb 11.15 i 12.15, a bydd rhaid i'r gwirfoddolwyr gael car.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.20 Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Darllenwyd y Clerc ateb wrth Rhodri Glyn Thomas, yngly^n â chronfeydd Un Llais i Gymru. Mae ef wedi ysgrifenni i'r Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ef wedi gofyn cwestiwn i'r Gweinidog Cyntaf ar Gweinidog Cyllid.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.21 Un Llais I Gymru.
Darllenwyd y Clerc ateb wrth Un Llais i Gymru yngly^n â Rheolau Sefydlog. Dywedodd fod y sylwadau yn cael i gyfeirio i'r Pwyllgor Ardal Caerfyrddin am ystyriaeth.
NODWYD: y pwynt uchod.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Mae'r ohebiaeth ganlynol wedi eu cydnabod ac mae'r cynnwys wedi eu nodi.
1. Cyngor Sir Caerfyrddin
1.1 Llyfryn Gwasanaeth Cynllunio rhoddwyd i Gynghorwr Keith Rees.
1.2 Ymgynghori gyda hen bobl, eglurodd Cynghorwr Anne Sizmur y sefyllfa i'r Cynghorwyr.
1.3 Gohebiaeth yngly^n â Safle Gwaith Glo Betws – dyddio 09/02/05.
1.4 Gohebiaeth yngly^n â Safle Gwaith Glo Betws – dyddio 18/02/05.
2. Un Llais I Gymru
2.1 Cofnodion o'r cyfarfod a gynhelir ar y 7fed o Chwefror 2005.
3. Map Ordinhad o Sir Caerfyrddin rhoddwyd i Gynghorwr Peter Cowell.
4. Gohebiaeth wrth yr Ymddiried Cenedlaethol Cymru rhoddwyd i Gynghorwr Graham Vaughan, oherwydd efallai bydd yn ddefnyddiol i'r Clwb Dros 50deg.

5. Arolwg Mynwent, rhoddwyd i Gynghorwr Arnallt James.
6. Cofnodion o gyfarfod Grw^p Llyw Rhydaman, rhoddwyd i Gynghorwr Anne Sizmur.

4. MATERION CYNLLUNIO.
Cytunwyd y ceisiai isod gan Cyngor Cymuned Betws:-
E/09395 - Awgrymu newidiad a estyniad i'r ochr/cefn
10 Heol Pentwyn, Betws
Mr H Jones

E/09281 - Estyniad i'r ffatri wreiddiol i ddarpar lle stori ychwanegol
Profab 2000 Ltd, Gweithdy Parc Betws
Profab 2000 Ltd

Mae'r cais isod yn cael i drafod gan Cyngor Cymuned Betws:-
Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi rhoi adroddiad i'r Cynghorwyr yngly^n â'r cais cynllunio E/09324 - Dadlwytho Adferiad Cyflwr Rhif 2 a 3 wrth Cais Cynllunio E/06373 cytunwyd 13.05.04 - Safle: Gwaith Glo Betws - Ymgeisydd: Glo Carreg Betws Ltd. Esboniodd Cynghorwr Peter Cowell bod Cynghorwr Anne Sizmur a fe wedi mynd i gyfarfod wythnos diwethaf. Yn y cyfarfod awgrymodd bod nhw'n siarad gyda'r Cynghorwr Sir John D Evans, am ei bod nhw am gael esboniad wrth Mr Cook beth sy'n digwydd. Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi ysgrifenni i'r Cynghorwr Sir John D Evans ac roedd ef wedi ateb yn dweud bod eisiau cynal cyfarfod gyda W.D.A., Ailenedigaeth Economaidd, Adran Priffordd, Glo Carreg Betws Ltd, T.R.J. Ltd, aelodau o Cyngor Cymuned Betws ac ei hunan. Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi cadarnhau bod y Clerc wedi ysgrifenni i Mark James y Prif Weithredol o Gyngor Sir Caerfyrddin i drefnu cyfarfod gyda'r uchod. Roedd y Clerc wedi dweud ei bod hi wedi cael galwad ffon wrth ysgrifenyddes y Cyfarwyddwr Ailenedigaeth, Dave Gilbert yn awgrymu fod cyfarfod yn cymryd lle rhwng Dave Gilbert, Eifion Bowen, Cynghorwr Sir John D Evans ac aelodau o Cyngor Cymuned Betws. Bydd y cyfarfod arall rhwng W.D.A., Ailenedigaeth Economaidd, Adran Priffordd, Glo Carreg Betws Ltd, T.R.J. Ltd, Cynghorwr Sir John D Evans ac aelodau o Cyngor Cymuned Betws yn cael i drefnu yn gyfamserol.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn trefnu cyfarfod mor gynted â phosib.

Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi cadarnhau ei fod wedi ysgrifenni i'r Awdurdod Glo, i gael sicrhad bod y gwaith wedi cael i wneud yn foddhaol. Mae ef wedi cael llythyr boddhaol wrthi'n nhw.

Roedd Cynghorwr June Gunter wedi rhoi diolch swyddogol i Gynghorwr Anne Sizmur a Cynghorwr Peter Cowell am y gwaith mae nhw wedi gwneud ar hwn.

Awgrymodd Cynghorwr Peter Cowell ei fod ef yn cadw'r dogfennau ar y cais cynllunio hyn am y tro. Roedd y Cynghorwyr i gyd wedi cytuno.
NODWYD: Y pwynt uchod.

5. CYFRIFON.
Darllenodd Cynghorwr Carwyn James y rhestr o bobl/cymdeithasau roedd yn ceisio gael gymorth ariannol. Gofynnodd Cynghorwr Graham Vaughan beth oedd y Cynllun Fan Bobby? Esboniodd Cynghorwr Loreen Lewis fod y Cynllun yn ymweld â phobl henaidd, pobl anabl, menywod yn byw ar ei hun etc.

Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell fod Cynghorion eraill yn dodi rhestr o roddion mae nhw wedi rhoi i gymdeithasau yn y papur lleol. Esboniodd Cynghorwr Anne Sizmur fod rhestr wrth Cyngor Cymuned Betws wedi cael i ddodi yn y papur lleol am flwyddyn ddiwethaf.

Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi esbonio taw yn y gorffennol mae Cyngor Cymuned Betws wedi pryni bats am y Clwb Criced, rhoddwyd iddynt ar ei noson Cyflwyniad. Penderfynwyd i gyflwyno rhodd o £200 i Glwb Criced Betws.

1. Cynghorwr Anne Sizmur (siec ad daliad yngly^n â Clwb Dros 50deg Betws) £100.00
2. Cyflog a Lwfans y Clerc £644.32
3. Treth Incwm y Clerc (Ionawr, Chwefror, Mawrth) £160.01
4. Treth Incwm y Clerc (Tachwedd a Rhagfyr) £106.67
1. Rhodd - Cruse Sir Gar £50.00
2. Rhodd - Ambiwlans Awyr Cymru £100.00
3. Rhodd - Eisteddfod Genedlaethol Llangollen £100.00
4. Rhodd - Cynllun Fan Bobby £50.00
7. Rhodd - Clwb Criced Betws £200.00
8. Clwb Dros 50deg Betws £300.00

CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Clive Morgan 1035 y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys yn absenoldeb PC K Jones. Dywedodd ef ei fod wedi bod yn siarad gyda Rob Chapman a bod dim troseddau yw nodi yn Betws am fis Chwefror.

Dywedodd fod 154 o bobl wedi bod yn bresennol yn y Disco Glas diwethaf ym mis Chwefror, mae'r disco nesaf wedi cael i drefnu am y 24eg o Fawrth. Roedd Cynghorwr Annette Price wedi rhoid diolch i'r Heddlu am eu hymdrech ar waith called sydd wedi mynd mewn i drefnu'r Discos Glas.

Roedd Cynghorwr Keith Rees wedi gofyn os oedd y ddau drosedd a gafodd eu sôn am yn adroddiad PC K Jones yn Chwefror wedi cael i benderfyniad. Roedd PC C Morgan wedi dweud ei fod ef ddim yn gwybod.

Roedd Cynghorwr Graham Vaughan wedi gofyn os oedd PC K Jones wedi ymweld ar ardal tu ôl i'r Clwb Rygbi yngly^n ar fandaliaeth. Roedd PC C Morgan wedi dweud ei fod ef ddim yn gwybod.

Roedd Cynghorwr Loreen Lewis wedi adrodd ei bod hi wedi derbyn cwynion yngly^n â pharcio ddwbl yn Teras Coroniad yn y nos. Roedd Cynghorwr Arnallt James wedi cytuno a dweud fod ddim lle arall i barcio. Gofynnodd Cynghorwr Anne Sizmur os gall hwn cael i fonitor. Roedd PC C Morgan wedi cytuno bydder Heddlu yn fonitor hwn.

Roedd Cynghorwr Arnallt James hefyd wedi adrodd fod y traffig yn dal i fynd yn gyflym ar Heol Maescware.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

7. UNRHYW FATER ARALL.
Roedd cynghorwr Peter Cowell wedi egluro ei fod wedi gwneud ymholiadau gyda'r adran Rheolaeth Caffaeliad, Cyngor Sir Caerfyrddin i weld os oes posibilrwydd i gall Neuadd i'r pentref. Mae'n aros i Rhys Davies ysgrifennu yn nol iddo i weld os mae'r tir ar gael i Fetws ddefnyddio.
NODWYD: y pwynt uchod.

Roedd Cynghorwr Loreen Lewis wedi gofyn os gall y Cyngor cael trafodaeth i weld sut mae'r cronfeydd wrth Cartrefu Westbury yn gallu cael i rhoi yn nol i'r pentref.
PENDERFYNWYD: I ddodi ar agenda mis nesaf.

Roedd Cynghorwr Keith Rees wedi gofyn os oedd cyfeiriad blaen am Glo Carreg Betws. Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell, yn unig gyfeiriad sydd gyda ni yw T.R.J.
NODWYD: y pwynt uchod.

Gofynnod Cynghorwr Anne Sizmur i'r Clerc os oedd hi wedi cael ymateb wrth Cyngor Sir Caerfyrddin yngly^n â rhestr cyswllt? Nid yw'r Clerc wedi cael ymateb eto.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn dilyn hyn i fynnu.